Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2012

11.30 – 3.10

Prifysgol Caerdydd

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro R Merfyn Jones (Cadeirydd) Gareth Pierce, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd) Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Yr Athro Aled Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Stephanie Lloyd, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Nia Brown, Swyddog Datblygu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Hefyd yn Bresennol:	Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Rachel Cable, Addysg Uwch Cymru (AUC/HEW) Adam Jones, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC Cymru Kimberley Meringolo, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Ymddiheuriadau:	Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1 Sylwadau Agoriadol ac ymddiheuriadau	1.1 Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a nodwyd diolch i Brifysgol Caerdydd am letya'r cyfarfod. 1.2 Nodwyd y derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ieuan Wyn (Cyfarwyddwr Annibynnol) a'r Athro Medwin Hughes (Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch). Gan i'r Athro Hughes fod yn absennol o bob cyfarfod dros gyfnod o chwe mis ac am ddau gyfarfod yn olynol, rhoddwyd caniatâd y Bwrdd iddo fod yn absennol y tro hwn. 1.3 Eglurwyd y byddai Gareth Pierce yn gorfod gadael cyn diwedd y cyfarfod ac y byddai Dr Hefin Jones yn gorfod gadael am ran o'r cyfarfod. 1.4 Croesawyd Stephanie Lloyd (Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr) i'w chyfarfod cyntaf. 1.5.1 Eglurwyd y byddai Dr Alison Allan (CCAUC) yn ymddeol o'i swydd ym mis Mawrth ac y byddai Kimberley Meringolo yn gweithredu fel sylwedydd yn y dyfodol ac yn bresennol yn y cyfarfod hwn. 1.5.2 Croesawyd Rachel Cable (HEW) a fydd yn sylwedydd yn dilyn penodi Lisa Newberry yn Ddirprwy Gyfarwyddwr HEW. 1.5.3 Yn dilyn cais gan UCMC am sylwedydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd, nodwyd fod y Cadeirydd wedi cydsynio i'r cais, Croesawyd Adam Jones, a oedd yn bresennol fel sylwedydd. 1.5.4 Croesawyd Nia Brown fel aelod newydd o staff y Coleg.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2 Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi.		
3 Derbyn ac ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2012	3.1 Nodwyd dau gywiriad i'r cofnod, sef yr angen i ddiwygio cofnod 3.1 i ddarllen "er mwyn nodi" a chofnod 17.1 yn y Saesneg i gywiro'r mis i Fehefin. 3.2 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.	Ysgrifennydd i gywiro'r cofnod	Ar unwaith
4 Materion yn Codi	4.1 Arwyddion - Nodwyd fod consyrn yn parhau ynghylch diffyg arwyddion mewn rhai sefydliadau ond adroddwyd fod camau ar y gweill i ddatrys hyn mewn sefydliadau eraill. Ategwyd y byddai disgwyliadau'r Coleg yn y cyswllt hwn yn cael eu cryfhau yn y llythyrau grant i'r canghennau'r flwyddyn nesaf. 4.2 Fframwaith Gwerthuso - Cylchredwyd dogfen ar Fframwaith Gwerthuso cyn y cyfarfod ac esboniwyd ei gyd-destun gan Ysgrifennydd y Coleg, gan nodi fod cynnal gwerthusiad yn un o amodau'r Cytundeb Cyllido gyda CCAUC. Gofynnwyd i'r Bwrdd gytuno ar fframwaith lle byddai asesydd allanol yn cynnal y gwerthusiad a hynny bob dwy flynedd, gydag un aelod o'r Bwrdd yn gweithredu fel pwynt cyswllt. Yn ymarferol bydd yr Asesydd Allanol yn arwain ar y gwaith. Penodwyd Linda Wyn fel aelod o'r Bwrdd i weithredu fel cyswllt at gyfer yr ymarferiad. Gofynnwyd i'r Bwrdd awdurdodi'r Cadeirydd i benodi asesydd allanol yn unol â rheoliadau'r Coleg. Cymeradwywyd y cynnig hwn. 4.3 Cyfarfod gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau – Rhoddwyd adroddiad llafar ar y cyfarfod rhwng y Gweinidog a'i swyddogion, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Adroddwyd y byddai cyfarfod o'r fath yn digwydd yn flynyddol.	Cadeirydd i benodi ymgynghorydd	Ar unwaith

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	4.4 Targedau - Cafwyd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y targedau presennol, a hefyd y trafodaethau ar gytuno targedau tymor hir, gan Gofrestrydd y Coleg. Adroddwyd bod y sefyllfa'n gadarnhaol mewn rhai sefydliadau a oedd yn adrodd ar gynnydd mewn cofrestriadau		
5 Gohebiaeth	5.1 Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w nodi.		
6 Materion Staffio	6.1 Cofnodion y Pwyllgor Staffio - Cyflwynwyd Cofnodion y Pwyllgor Staffio yn y cyfarfod, er gwybodaeth. 6.2 Penodiadau Cyfnod Mamolaeth – Nodwyd yn ffurfiol y penodiadau canlynol ar gyfer swyddi cyfnod mamolaeth: • Nia Brown (rhan-amser) • Rhian Dafydd (rhan-amser) • Rhian Davies (llawn-amser) • Rhinedd Williams (rhan-amser)		
7 Llywodraethu (BC/12/03/07)	7.1 Nodwyd, er mwyn sicrhau tryloywder yn y broses o benodi cyfarwyddwyr, y byddai pob Cyfarwyddwr yn cael ei gyfweld, neu ei chyfweld, o hyn ymlaen, gan aelod o Bwyllgor Penodiadau'r Coleg, cyn cadarnhau'r enwebiad a/neu'r penodiad. 7.2 Cyfarwyddwr myfyrwyr - Cymeradwywyd penodiad Stephanie Lloyd fel cyfarwyddwr i gynrychioli myfyrwyr a nodwyd ei bod wedi ei chyfweld gan Gadeirydd y Pwyllgor Penodiadau. Cymeradwywyd penderfyniad y Cadeirydd i ganiatáu sylwedydd o UCMC i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd. 7.3 Penodi Cyfarwyddwyr 2013 hyd 2016 – Cafwyd adroddiad gan Ysgrifennydd y Coleg a nodwyd y canlynol: 1. Cyfarwyddwyr Sector Addysg Uwch - Adroddwyd fod cais wedi ei gyflwyno i Addysg Uwch Cymru am ddau enwebiad.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	2. Cyfarwyddwr Annibynnol - Adroddwyd y byddai hysbyseb yn ymddangos yn y wasg fis Rhagfyr gyda dyddiad cau ddechrau Ionawr. 3. Cyfarwyddwr Staff – Adroddwyd bod enwebiadau wedi eu gwahodd gan aelodau staff o gymuned academaidd y Coleg. Nodwyd y daeth un enwebiad i law, sef Dr Hefin Jones, felly argymhellir i'r cyfarfod blynyddol iddo gael ei ail-benodi am dymor pellach. 7.4 Trefniadau'r Cyfarfod Blynyddol - Nodwyd y cynhelir Cyfarfod Blynyddol Llys y Coleg yn Ystafell y Cyngor, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth ar 26 Chwefror 2013. Yn dilyn rhan ffurfiol y cyfarfod bydd anerchiad gan Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg. 7.5.1 Nodwyd y bydd Cynulliad Blynyddol y Coleg yn cael ei gynnal gyda'r hwyr yn Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau, Prifysgol Aberystwyth, lle anrhydeddir Cymrodyr y Coleg. 7.5.2 Ystyriwyd enwebiadau ar gyfer Cymrodyr i'w hanrhydeddu gan y Coleg yn 2013. Cytunwyd ar bedwar enw i'w gwahodd yn ffurfiol. Pwysleisiwyd y byddai'r enwebiadau yn parhau'n gyfrinachol tan y datganiad i'r wasg wythnos cyn y cyfarfod. Nodwyd y bydd aelodau o Fwrdd y Cyfarwyddwyr yn cyflwyno'r Cymrodyr unigol yn y Cynulliad. 7.6 Gofynnwyd i'r Bwrdd gytuno i'r bwriad o gydnabod myfyrwyr sydd wedi sicrhau doethuriaethau o dan nawdd y Coleg (neu ei ragflaenydd y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg). Cymeradwywyd hyn gan y Cyfarwyddwyr a chytunwyd i adael y trefniadau ymarferol yn nwylo'r swyddogion.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	7.7.1 Cytundeb cyllido rhwng y Coleg a'r sefydliadau – Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa gan y Prif Weithredwr sef bod pob sefydliad addysg uwch sydd yn derbyn grantiau gan y Coleg bellach wedi arwyddo Cytundeb Cyllido. 7.7.2 Adroddwyd y bu oedi mewn perthynas ag un sefydliad a oedd yn anfodlon â geiriad un o'r cymalau. Erbyn hyn y mae'r sefydliad hwnnw wedi arwyddo'r Cytundeb. Cytunwyd y byddai'r Coleg yn adolygu geiriad y Cytundeb ac fe gyfeirir y mater hwn i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 26 Chwefror 2013. 7.7.3 Nodwyd y byddai'r Coleg yn cyfarfod ag Addysg Uwch Cymru (HEW) ar 16 Ionawr 2013. 7.8 Statws y Coleg o fewn siarter sefydliadau unigol - Rhoddwyd diweddariad ar yr eitem gan y Prif Weithredwr. Nodwyd bod perthynas y sefydliadau addysg uwch â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi ei nodi yn y Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu. Fodd bynnag, nid oes, ar hyn o bryd, batrwm cyfatebol yn siarter / cyfansoddiad sefydliadau unigol. Wedi i un o'r Cyfarwyddwyr godi'r mater yng nghyfarfod y Bwrdd yn Abertawe ar 29 Chwefror 2012 derbyniwyd cyngor ar y sefyllfa a nodwyd bod y mater yn un cymhleth. Cynigiwyd gan un Cyfarwyddwr y dylai'r Coleg ddarparu geiriad i'r sefydliadau a ellid ei hychwanegu fel atodiad i'w cyfansoddiadau. 7.9 Roedd y Bwrdd yn awyddus bod y Coleg yn cael ei chynrychioli ar gyrff eraill. Nododd y Prif Weithredwr bod y Coleg eisoes yn cael ei chynrychioli ar Fwrdd Ymgynghorol y Llyfrgell Genedlaethol.	Pwyllgor Archwilio i ystyried y mater. Mater i'w drafod gydag Addysg Uwch Cymru, 16 Ionawr 2013.	
8 Materion Cyllid	8.1 Cyflwynwyd y Cyfrifon Archwiliedig a'r ddogfennaeth a atodwyd gan Geraint James, (cadeirydd y Pwyllgor Archwilio) a		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	Chofrestrydd y Coleg. Adroddwyd ar yr argymhellion a gyflwynwyd yn y Pwyllgor Archwilio ar fore 28 Tachwedd 2012 gan PriceWaterhouseCoopers, gan nodi y byddai'r rhain oll yn cael eu cwblhau. 8.2 Derbyniwyd y Cyfrifon a nodwyd y byddai'r cynnwys yn parhau'n gyfrinachol tan i'r fersiwn derfynol gael eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ar 26 Chwefror 2013, a fydd yn eu derbyn yn ffurfiol.		
9 Pwyllgor Archwilio	9.1 Cyflwynwyd yr eitem hon ar yr agenda gan Geraint James, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. 9.2 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2012, er gwybodaeth. 9.3 Cyflwynwyd adroddiad llafar ar y cyfarfod a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Bwrdd. Cyfeiriwyd yn benodol at adroddiad a gyflwynwyd gan yr Archwilwyr Mewnol sy'n mynychu pob cyfarfod. Nodwyd bod argymhellion drafft wedi codi o'r cyfarfod ac y byddai angen i Uwch Reolwyr y Coleg eu hystyried cyn y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr fis Chwefror, sef: • Tîm Rheoli i gynnal adolygiad o waith Cyfathrebu'r Coleg • Ystyried, fel mater o frys, yr adroddiad ar waith y swyddogion cangen, a'r dystiolaeth fod rhai ohonynt yn cyflawni gwaith sydd yn ychwanegol at y dyletswyddau a nodwyd yn y cytundebau cyllido. 9.4 Cofrestr Risgiau'r Coleg. Cafwyd diweddariad byr ar y Gofrestr Risgiau gan y Cofrestrydd. Nodwyd bod yr Archwilwyr wedi awgrymu ail-gynllunio'r gofrestr er mwyn gallu monitro'r risg strategol a gweinyddol yn fwy effeithiol.	Uwch Reolwyr i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio	Erbyn 26 Chwefror 2013

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
10 Cynllun Gweithredu 2011/12 (BC/12/03/10)	10.1 Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu 2011/12, er gwybodaeth. 10.2 Adroddwyd ar gyfarfod monitro diweddar gyda'r Cyngor Cyllido a nodwyd bwriad y Coleg a'r Cyngor Cyllido i gynnal tri chyfarfod y flwyddyn, yn hytrach na dau, o hyn ymlaen. 10.3 Derbyniwyd adroddiad terfynol ar Gynllun Gweithredu 2011/12. Nodwyd bod y Cyfarwyddwyr yn llongyfarch swyddogion y Coleg ar y ffordd y gweithredwyd y cynllun a chyflawni targedau. 10.4 Rhoddwyd diweddariad llafar gan yr Ysgrifennydd ar y Dystysgrif Sgiliau Iaith, a lansiwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn Awst 2012, ac a gynigir am y tro cyntaf eleni.		
11 Cynllun Gweithredu 2012/13 (BC/12/03/11)	11.1 Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu 2012/13, er gwybodaeth. Cymeradwywyd y cynllun gan y Cyfarwyddwyr.		
12 Materion Academaidd	12.1 Cyflwynwyd adroddiad ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd gan y Deon. Nodwyd bod cofnodion y Bwrdd Academaidd wedi eu dosbarthu, er gwybodaeth. 12.2 Cafwyd diweddariad ar Gynllunio Academaidd gan y Deon a'r Cofrestrydd. Nododd y Deon ei fod yn treulio diwrnod y mis adeiladol yn y swyddfa yng Nghaerfyrddin. Nododd ei fod wedi dechrau ymweld â phob cangen mewn blwyddyn academaidd. Y mae eisoes wedi ymweld â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a bydd yn ymweld â Phrifysgol Bangor fis Mai 2013. Yn yr ymweliadau y mae'n cwrdd â staff academaidd, deiliaid ysgoloriaethau, swyddogion cangen ayyb. Adroddwyd y byddai tri chynllun pwnc terfynol yn cael eu cyflwyno yn y Bwrdd Academaidd nesaf ac y byddai nifer o gynlluniau drafft yn ogystal.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	12.3 Meddygaeth – Adroddwyd ar y sefyllfa benodol hon gan y Cofrestrydd a eglurodd y rhesymau pam y methwyd gwneud penodiad i'r swydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Nodwyd bod datblygu darpariaeth ym maes Meddygaeth yn allweddol yn wyneb lansio Strategaeth Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg yn y sector iechyd.		
13 Darpariaeth Gydweithredol (BC/12/03/13)	13.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur ac argymhellion mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol, sydd yn elfen allweddol o Gynllun Academaidd y Coleg. 13.2 Pwysleisiwyd bod y Coleg yn cydnabod egwyddor sylfaenol, sef mai'r sefydliadau sydd yn gyfrifol am y ddarpariaeth academaidd a gynigir, ac am safonau'r graddau a ddyfernir ganddynt. 13.3 Fodd bynnag y mae'n allweddol i'r Coleg allu sicrhau fod cynlluniau a phrosiectau cydweithredol a gyllidir gan y Coleg, gan gynnwys dysgu a gyflawnir gan ddarlithwyr a noddir drwy'r Cynllun Staffio Academaidd, yn gallu cael eu cyflwyno a'u cyflawni o fewn y fframweithiau ansawdd a safonau sefydliadol. Nodwyd y pwysigrwydd o sicrhau eglurder ar hyn a chytundeb y sefydliadau i gynlluniau arfaethedig, cyn eu cyllido 13.4 Yn dilyn trafodaeth, argymhellwyd sefydlu Pwyllgor Cydweithio Academaidd gan wahodd pob sefydliad addysg uwch i fod yn aelodau ohono. 13.5 Cytunwyd y byddai'r Prif Weithredwr yn paratoi amlinelliad o bwrpas y Pwyllgor arfaethedig, a'i gylchredeg i aelodau'r Bwrdd. Yn amodol ar eu cytundeb byddai pob sefydliad yn cael eu gwahodd i enwebu cynrychiolydd ar gyfer y Pwyllgor newydd.	Sicrhau cytundeb y Bwrdd i sefydlu'r Pwyllgor	Ar unwaith

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
14 Astudiaethau Cyfieithu (BC/12/03/14)	14.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr bapur ar Astudiaethau Cyfieithu gan ofyn i'r Bwrdd benderfynu ar y ffordd ymlaen. 14.2 Adroddwyd fod y Coleg wedi comisiynu Heini Gruffudd i baratoi argymhellion ar fframwaith y gallai'r Coleg ei gefnogi drwy'r Cynllun Academaidd a bod yr argymhelliad cychwynnol yn cynnig y cysyniad o 'Ysgol Astudiaethau Cyfieithu' ar sail genedlaethol. Adroddwyd bod Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal adolygiad o faes cyfieithu a bod cyfle i sicrhau fod unrhyw gynlluniau a ddatblygir gan y Coleg yn cydlynu â chanlyniadau'r adolygiad hwnnw. 14.2 Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r prif argymhellion canlynol: • Bod y Coleg yn symbylu proses o sefydlu Ysgol Astudiaethau Cyfieithu, drwy gynnal trafodaeth gyda'r sector addysg uwch • Bod swyddi academaidd a gyllidir gan y Coleg yn cael eu lleoli o fewn fframwaith yr 'Ysgol' • Bod unrhyw ddarpariaeth neu weithgaredd a gyllidir gan y Coleg o fewn yr Ysgol arfaethedig yn ymateb yn uniongyrchol i anghenion y diwydiant cyfieithu, gan gynnwys darparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol i ymarferwyr. 14.3 Cytunwyd bod y Bwrdd yn argymell penodi unigolyn cymwys i arwain y gwaith o symbylu'r datblygiad ar ran y Coleg drwy arwain a hwyluso trafodaethau gyda'r prifysgolion. Byddai'n hanfodol creu Cynllun Busnes ar gyfer yr Ysgol, yn ogystal â Chynllun Academaidd. 14.4 Awgrymodd un Cyfarwyddwr y dylid gwneud penderfyniad buan gan y Coleg ar gyllido swyddi academaidd yn y maes, yn dilyn y ddau gais a gyflwynwyd i'r Coleg yn Rhagfyr 2011. Ond		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	penderfynwyd ei bod yn gynamserol i gyllido swyddi academaidd cyn gosod fframwaith strategol yn ei lle ar gyfer lleoli'r swyddi hyn. 14.6 Nodwyd bod y Coleg yn cefnogi cynlluniau sydd gan y sefydliadau i ddatblygu eu darpariaeth ym maes Astudiaethau Cyfieithu gan gynnwys adrannau Ieithoedd Modern. 14.7 Nodwyd y byddai'r Coleg yn galw cyfarfod yn Chwefror 2013 i drafod a chytuno ar y camau nesaf o ran sefydlu'r Ysgol Astudiaethau Cyfieithu. 14.8 Nodwyd y byddai'r Coleg yn dosbarthu cylchlythyr cyn diwedd y flwyddyn yn adrodd ar argymhellion y Bwrdd.	 Coleg i alw cyfarfod Coleg i ddosbarthu cylchlythyr	 Chwefror 2013 Rhagfyr 2012
15 Ysgoloriaethau'r Coleg (BC/12/03/15)	15.1 Derbyniwyd adroddiad ar Ysgoloriaethau'r Coleg gan y Cofrestrydd. 15.2 Trafodwyd y trefniadau presennol ar gyfer dyfarnu Prif Ysgoloriaethau'r Coleg, a'r anghysonderau sydd yn codi oherwydd y gwahanol drefniadau a weithredir gan y sefydliadau unigol. Argymhellwyd newid y system i naill ai: 1. **Opsiwn A**: Parhau i drosglwyddo niferoedd penodol o Brif Ysgoloriaethau i bob prifysgol ar yr amod fod y prifysgolion yn mabwysiadu trefn unffurf a chyson ar gyfer eu dyfarnu; neu 2. **Opsiwn B**: Y Coleg yn sefydlu trefn genedlaethol ar gyfer dyfarnu'r Prif Ysgoloriaethau. 15.3 Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol i argymell **Opsiwn B**. Y cam nesaf fyddai cyhoeddi cylchlythyr yn gwahodd sylwadau gan y prifysgolion ar y ffordd ymlaen.	 Coleg i ddosbarthu cylchlythyr	 Ionawr 2013

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	15.4 Mewn perthynas â'r Ysgoloriaethau Ymchwil, cymeradwywyd y bwriad i ddiwygio amodau'r cynllun er mwyn parhau i ddenu ymgeiswyr o'r safon uchaf a chytunwyd i ddirprwyo awdurdod ar gyfer cadarnhau'r manylion i'r Bwrdd Academaidd.	Bwrdd Academaidd i gymeradwyo newidiadau	6 Chwefror 2013
16 Ymgyrch Recriwtio a'r Prosbectws (BC/12/03/16)	16.1 Cafwyd cyflwyniad byr gan y Cofrestrydd ar yr Ymgyrch Recriwtio a'r Prosbectws; a sefydlu'r Grŵp Polisi Addysg a Dilyniant, fel is-bwyllgor o'r Bwrdd. Yn ogystal adroddwyd y byddai Prosbectws cyntaf y Coleg yn cael ei gyhoeddi fis Mai 2013 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/15. 16.2 Mynegodd rhai aelodau eu consyrn am y nifer o aelodau ychwanegol sydd wedi eu cyfethol i'r Grŵp Polisi Addysg a Dilyniant, a chytunwyd i gyfeirio'r mater at Gadeirydd y Grŵp.		
17 Dyfarnu Grantiau	17.1 Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr ar y trefniadau a'r amserlen ar gyfer cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â grantiau o'r Cynllun Staffio Academaidd. Cytunwyd yn unfrydol ar y trefniadau hyn.		
18 Adroddiad Blynyddol y Coleg 2011/12	18.1 Amlinellwyd y broses ar gyfer cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol gan yr Ysgrifennydd. Nodwyd y bwriad i baratoi testun drafft cyn y Nadolig fel y gellid ei ddylunio yn y flwyddyn newydd. Bydd yr Adroddiad yn barod erbyn Cyfarfod Blynyddol Llys y Coleg ar 26 Chwefror 2013. 18.2 Nodwyd yr argymhelliad gan y Cyfarwyddwyr y dylid anfon copi i archif y Llyfrgell Genedlaethol. 18.3 Nodwyd hefyd yr argymhelliad y dylai arddull yr adroddiad fod yn boblogaidd, gan osgoi gormod o destun.		
19 Unrhyw Fater Arall	19.1 Nodwyd fod presenoldeb y Coleg yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Morgannwg fis Awst 2012 wedi bod yn hynod o		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	lwyddiannus. Cafwyd rhaglen lawn o ddigwyddiadau dyddiol a oedd yn creu amrywiaeth a phresenoldeb trawiadol. Roedd hyn oll wedi denu cyhoeddusrwydd ehangach ac wedi cyrraedd gohebwyr gwahanol. Gosodwyd sylfaen ar gyfer presenoldeb yn yr Eisteddfod yn y dyfodol. 19.2 Nodwyd diolch i staff y Coleg a'r gobaith i gynnal yr un gwaith da yn y dyfodol. 19.3 Nododd y Cadeirydd y byddai'n ddefnyddiol petai'r Bwrdd yn derbyn mwy o gyflwyniadau ar waith y Coleg yn ei gyfarfodydd. Eglurodd y Prif Weithredwr bod hyn yn hollol bosibl ond y byddai angen ymestyn hyd y cyfarfodydd er mwyn cyflawni hyn.		
20 Dyddiad y cyfarfod nesaf	20.1 Wrth gloi'r cyfarfod nodwyd gair o ddiolch i'r cyfieithwyr. 20.2 Dymunwyd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. 20.3 Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 27 Chwefror 2013, yn y Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth.		